

Problemau ariannol oherwydd coronafeirws?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cymorth yn syth



Siaradwch â'ch benthyciwr.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich benthyciwr ar y llythyrau maen nhw'n eu hanfon atoch neu ar eu gwefan.

Pan fyddwch yn ffonio eich benthyciwr, mae'n bosib y bydd angen i chi aros yn hirach na'r arfer cyn siarad â rhywun. Peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag cysylltu. Mae nifer fawr o bobl eraill yn cael trafferthion ariannol ac mae'n bosib bod eich benthyciwr yn ceisio delio â llawer o alwadau. Arhoswch ar y llinell, neu cysylltwch gyda nhw drwy eu gwefan neu dros e-bost.

Saib talu a chefnogaeth wedi ei deilwra

Mae cefnogaeth ar gael os ydych chi yn cael trafferthion ariannol oherwydd coronafeirws. Gall hyn olygu cymryd saib talu neu dderbyn cymorth wedi ei deilwra.

Galwch wneud cais am saib talu hyd at y 31ain o Fawrth ar gyfer:

morgeisi, benthyciadau personol, cardiau credyd, cardiau siopa a chredyd catalog, cyllid ceir gan gynnwys hurbrynu a chytundebau lesu, rhentu i brynu, prynu nawr talu wedyn, talu gwystlwr, credyd cost uchel tymor byr.

Amser yw hyn wedi ei gytuno gyda'ch benthyciwr pan fyddwch yn gwneud taliadau llai neu dim o gwbl. Gallwch ofyn am saib talu o hyd at 6 mis, ond dim ond saib o dri mis ar y tro all eich benthyciwr gytuno iddo. Ar gyfer credyd cost uchel tymor byr, gallwch wneud cais am saib talu o fis.

Os na fydd eich benthyciwr yn caniatáu saib talu, e.e. os ydych eisoes wedi cael cyfanswm o 6 mis o saib talu, fe ddylent ddarparu cymorth wedi ei deilwra i chi. Cefnogaeth yw hyn sy'n briodol i'ch amgylchiadau personol chi.

Os ydych chi wedi cymryd saib talu bydd eich benthyciwr yn cysylltu cyn i'r cyfnod ddod i ben i weld a oes angen mwy o help arnoch. Os allwch chi fforddio ailgychwyn eich ad-daliadau, fe ddylech wneud hynny gan y bydd yn costio llai i chi yn y tymor hir.





Gorddrafftiau

Efallai y bydd modd i'ch benthyciwr leihau neu atal y llog, lleihau eich gorddrafft drwy symud y ddyled i gynnyrch credyd arall, neu efallai y byddant yn cytuno i leihau faint o orddrafft a balans sydd gennych yn raddol.



Yswiriant

Mae'n bwysig bod eich yswiriant yn diwallu eich anghenion. Gall eich darparwr edrych ar y warchodaeth sydd gennych er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn iawn i chi, a gweld a oes modd lleihau'ch taliadau.



Eich ffeil gredyd

Gofynnwch i'ch benthyciwr sut y bydd unrhyw gymorth y byddwch yn ei dderbyn yn ymddangos ar eich ffeil gredyd. Hyd yn oed os bydd y cymorth yn cael effaith ar eich ffeil, ni ddylai hyn eich atal rhag ei dderbyn os oes ei angen arnoch.



Os ydych yn anhapus gyda'ch benthyciwr

Mae gwybodaeth ar sut y gallwch wneud cwyn ar ein gwefan. www.fca.org.uk/consumers/how-complain.



Cael gafael ar gyngor cyfrinachol a di-duedd yn rhad ac am ddim

Gwasanaeth Cyngori Ariannol:

Ffoniwch 0800 138 7777 i siarad ag arbenigwr ariannol neu defnyddiwch Typetalk ar 18001 0800 915 4622.

Cyngor ar Bopeth:

Am gyngor a gwybodaeth ar ddyled a materion eraill, cysylltwch â'ch swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol.

AdviceUK:

Cyngor ar ddyledion, gan gynnwys cyngor arbenigol ar gyfer cymunedau lleiafrifol a phobl ag anabledau www.adviceuk.org.uk.

Christians Against Poverty:

Cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim i bobl o bob cred a phobl heb gred fel ei gilydd. I weld os oes cyngor ar gael yn eich ardal chi ffoniwch 0800 328 0006.

National Debtline:

Os ydych yn byw yn Lloegr, Cymru neu'r Alban ffoniwch 0808 808 4000.

StepChange Debt Charity:

Cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim ym mhob cwr o'r DU, ffoniwch 0800 138 1111.

Cyngor ar Bopeth Cymru:

Os ydych yn byw yng Nghymru, ffoniwch Advicelink ar 03444 77 20 20 i siarad â rhywun am eich dyledion. Mae galwadau'n costio'r un faint a galwadau i linellau tir.

Business Debtline:

Os ydych yn hunangyflogedig neu'n berchennog busnes bach, ffoniwch 0800 197 6026.

Pwy ydym ni

Ni yw'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol**. Rydym yn rheoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn y DU. Rydym yn gwarchod cwsmeriaid ac yn annog cystadleuaeth iach rhwng darparwyr gwasanaethau ariannol.



0800 111 6768 (rhadffon) neu
0300 500 8082

fca.org.uk